OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1341 (Cy.141)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Mai 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 17(2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra'r oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

(**1**) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "*food*") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn ôl eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S.1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, ac a wnaed yn arferadwy wedi hynny gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

mae i “awdurdod bwyd” yr ystyr sydd i'r ymadrodd “*food authority*” yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr “darpariaeth Gymunedol” (“*Community provision*”) yw darpariaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 6(2);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr “fitamin A” (“*vitamin A*”) yw fitamin A sy'n bresennol fel y cyfryw neu ar ffurf ei esterau ac mae'n cynnwys beta-caroten ar y sail bod 6 microgram o feta-caroten neu 12 microgram o garotenau eraill sy'n fiolegol actif yn hafal i un microgram o gyfwerth retinol;

ystyr “fitamin D” (“*vitamin D*”) yw'r fitaminau gwrth-lechau;

mae “gwerthu” (“*sell*”) yn cynnwys meddu ar rywbeth i'w werthu, a chynnig rhywbeth, ei roi ar ddangos neu ei hysbysebu i'w werthu;

ystyr “manwerthu” (“*sell by retail*”) yw gwerthu i berson nad yw'n prynu er mwyn adwerthu;

ystyr “Rheoliad y Comisiwn” (“*the Commission Regulation*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 sy'n gosod rheolau manwl penodol ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94 sy'n gosod safonau ar gyfer brasterau taenadwy a Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 1898/87 ar ddiogelu dynodiadau a ddefnyddir i farchnata llaeth a chynhyrchion llaeth(**3**);

ystyr “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol (CFA) ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (Rheoliad CFA Sengl)(**4**).

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y mae'r ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn ymddangos yn Rheoliad y Cyngor neu Reoliad y Comisiwn yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd i'r ymadroddion Saesneg hynny yn Rheoliad y Cyngor neu Reoliad y Comisiwn.

**Esemptiadau rhag y Rheoliadau hyn**

**3.**—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys, onid oes, a hyd oni fydd, penderfyniad gan Gydbwyllgor yr AEE i ddiwygio Cytundeb yr AEE o dan Erthygl 98 fel y bydd yn cyfeirio at Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn, ni fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw fraster taenadwy y mae Cytundeb yr AEE yn gymwys iddo ac—

(a) y daethpwyd ag ef i Gymru —

(i) o Wladwriaeth AAE (ac eithrio Aelod-wladwriaeth) lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon, neu

(ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig os daethpwyd â'r braster taenadwy hwnnw yno o Wladwriaeth AAE o'r fath; a

(b) sydd wedi'i labelu'n addas i ddangos natur y braster taenadwy.

(2) Ni fydd rheoliad 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fargarîn —

(a) y daethpwyd ag ef i Gymru —

(i) o Wladwriaeth AAE (ac eithrio'r Deyrnas Unedig) lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon,

(ii) o Aelod-wladwriaeth (ac eithrio'r Deyrnas Unedig) lle'r oedd mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon, neu

(iii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig lle'r oedd yn cael ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon neu mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon; a

(**3**) OJ Rhif L106, 24.4.2007, t.24.
(**4**) OJ Rhif L299, 16.11.2007, t.1. Mae diwygiadau i'r Rheoliad hwn ond nid yw unrhyw un ohonynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(b) sydd wedi'i labelu'n addas i ddangos natur y margarîn.

(3) At ddibenion paragraff (2), mae i "cylchrediad rhydd" yr un ystyr â "*free circulation*" yn Erthygl 23(2) o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd.

### Cynnwys margarîn o ran fitaminau

**4.** Ni chaiff neb fanwerthu unrhyw fargarîn onid yw'n cynnwys ym mhob 100 gram —

(a) dim llai nag 800 microgram a dim mwy na 1,000 o ficrogramau o fitamin A, a

(b) dim llai na 7.05 microgram a dim mwy nag 8.82 ficrogram o fitamin D,

a swm cymesur mewn unrhyw ran o 100 gram.

### Gorfodi

**5.** Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal weithredu a gorfodi'r darpariaethau Cymunedol a'r Rheoliadau hyn.

### Tramgwyddau a chosb

**6.**—(1) Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r canlynol, neu'n methu â chydymffurfio â'r naill neu'r llall ohonynt, sef —

(a) rheoliad 4; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth Gymunedol,

yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Y darpariaethau Cymunedol yw —

(a) Erthygl 114(1) o Reoliad y Cyngor (disgrifiadau rhagnodedig ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth) fel y'i darllenir gydag Atodiad XII i'r Rheoliad hwnnw;

(b) Erthygl 115 o Reoliad y Cyngor (safonau marchnata sy'n gymwys i frasterau taenadwy, gan gynnwys meini prawf cyfansoddiadol ar gyfer disgrifiadau neilltuedig), fel y'i darllenir gydag —

(i) Atodiad XV i Reoliad y Cyngor,

(ii) Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn ac Atodiad I iddo, neu

(iii) Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn ac Atodiad II iddo; ac

(c) Erthygl 3 o Reoliad y Comisiwn (gofynion sy'n ymwneud â defnyddio'r dynodiad "*butter*" ar gyfer cynhyrchion cyfansawdd) fel y'i darllenir gydag Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw.

### Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf

**7.**—(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

(a) adran 2 (ystyr estynedig "*sale*" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);

(c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy), fel y bo'n gymwys at ddibenion adran 14 neu 15;

(d) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi wrth gynnal busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33 (rhwystro swyddogion);

(f) adran 35(1) i (3) (cosbi am dramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) a (2);

(ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd).

(2) Bydd adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll) o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf yn yr adran honno at ddibenion y Rheoliadau hyn fel un sy'n cynnwys cyfeiriad at y darpariaethau Cymunedol.

**Dirymiadau**

**8.** Mae'r offerynnau canlynol wedi'u dirymu —

(a) Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) 1990(**5**), i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru;

(b) Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001(**6**);

(c) Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007(**7**).

*Gwenda Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

21 Mai 2008

(**5**) O.S. 1990/607, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2486.
(**6**) O.S. 2001/1361 (Cy.89), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1905 (Cy.163).
(**7**) O.S. 2007/1905 (Cy.163).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, o ran Cymru, ddarpariaethau penodol yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (OJ Rhif L299, 16.11.2007, t.1) ("Rheoliad y Cyngor").

**2.** Mae Rheoliad y Cyngor yn diddymu nifer o offerynnau eraill yr Undeb Ewropeaidd ("UE") ac yn ailddeddfu eu darpariaethau heb eu diwygio. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi darpariaethau a gynhwyswyd gynt yn nau o offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd ("CE") a ddiddymwyd ac a orfodwyd o'r blaen mewn dau offeryn statudol ar wahân.

**3.** Mae darpariaethau Rheoliad y Cyngor yn cynnwys:

(a) y gofyniad bod rhaid i laeth a chynhyrchion llaeth sy'n cael eu marchnata i bobl eu hyfed neu eu bwyta gydymffurfio â manylebau penodol ynghylch enwau a chyfansoddiad (*Erthygl 114(1) ac Atodiad XII*); a

(b) y gofyniad bod rhaid i frasterau taenadwy penodol sydd wedi'u bwriadu i bobl eu bwyta gydymffurfio â manylebau ynglyn â'u disgrifiad at ddibenion gwerthu, dull eu labelu a'u cyflwyno, a'r defnydd o derminoleg (*Erthygl 115 ac Atodiad XV*).

**4.** Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad y Cyngor ynghylch brasterau taenadwy wedi'u hategu gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 (OJ Rhif L106, 24.4.2007, t.24).

**5.** Mae'r Rheoliadau yn yr offeryn hwn —

(a) yn darparu esemptiad ar gyfer brasterau taenadwy a fewnforir o wladwriaeth AAE ac eithrio Aelod-wladwriaeth (*rheoliad 3(1)*);

(b) yn pennu'r lefelau gofynnol ar gyfer fitaminau penodol mewn margarîn (rheoliad 4), yn ddarostyngedig i esemptiad ar gyfer margarinau y deuir â hwy i Gymru o fannau eraill yn yr AAE neu'r DU ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau cenedlaethol hyn (*rheoliad 3(2)*);

(c) yn dynodi'r awdurdodau sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliadau UE a grybwyllwyd ym mharagraffau 3 a 4 uchod (*rheoliad 5*);

(ch) yn creu tramgwydd diannod o fethu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn neu ddarpariaethau perthnasol yr UE (*rheoliad 6*); a

(d) yn cymhwyso darpariaethau penodol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**6.** Nid oes asesiad rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.